# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Lleoliad Allanol** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 13 Chwefror 2014** |
| Amser: | **09:30 - 12:20** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_800002_13_02_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

Adeilad Margam, Prifysgol Abertawe

Aelodau'r Cynulliad:

**David Rees (Cadeirydd)**
**Rebecca Evans**
**Elin Jones**
**Gwyn R Price**
**Lindsay Whittle**
**Kirsty Williams**

Tystion:

**Dr Nadim Haboubi, National Obesity Forum for Wales**
**Dr Dev Datta, Welsh Association of Gastroenterology and Endoscopy**
**Colin Ferguson, Royal College of Surgeons**
**Jonathan Barry, British Obesity and Metabolic Surgery Society**
**Jan Smith, Aneurin Bevan University Health Board**
**Alison Shakeshaft, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan**
**Scott Caplin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**
**Dr Khesh Sidhu, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru**
**Dr Suzanne Wood, Iechyd Cyhoeddus Cymru**

| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Chloe Davies (Dirprwy Glerc)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)** |
| --- | --- |

TRAWSGRIFIAD
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Leighton Andrews AC, Lynne Neagle AC, William Graham AC a Darren Millar AC.

## 2 Ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig: Sesiwn dystiolaeth 1

2.1. Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd Dr Haboubi i roi rhagor o fanylion am nifer y cleifion y mae wedi'u hatgyfeirio at lawdriniaeth fariatrig, a nifer y cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth o ganlyniad i'r atgyfeiriadau hynny.

## 3 Ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig: Sesiwn dystiolaeth 2

3.1. Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd Mr Barry i ddarparu rhagor o wybodaeth am yr 11 o restrau llawn o lawdriniaethau y nododd iddynt fynd ar goll yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan gynnwys rhagor o wybodaeth am beth y mae "11 o restrau llawn o lawdriniaethau" yn ei olygu o ran nifer y cleifion ac fel cyfran o faich gwaith cyffredinol Sefydliad Llawfeddygaeth Gordewdra a Metabolaidd Cymru.

## 4 Ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig: Sesiwn dystiolaeth 3

4.1. Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

4.2 Cytunodd Dr Jane Layzell i egluro a oes gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen "Ysgolion Iach" wedi'i gynnal.

## 5 Ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig: Sesiwn dystiolaeth 4

5.1. Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

5.2 Cytunodd Dr Sidhu i roi eglurhad o'r ffigurau NICE a nododd yn ystod y sesiwn mewn perthynas â:

- nifer yr unigolion yng Nghymru sy'n gymwys i gael eu hatgyfeirio at wasanaethau bariatrig;
- nifer yr unigolion sy'n gymwys i gael llawdriniaeth fariatrig;
- nifer yr unigolion sy'n debygol o dderbyn llawdriniaeth.

## 6 Papurau i'w nodi

6.1. Nododd y Pwyllgor gofnodion ei gyfarfod blaenorol.